**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1 Mehefin 2015**

**DATGANIAD O SICRWYDD YR ARCHWILIAD MEWNOL BLYNYDDOL 2014/15**

**Adroddiad gan Mike Halstead, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

## Diben yr Adroddiad

1 Dan delerau'r rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Awdurdod gynnal adolygiad, yn flynyddol, o effeithiolrwydd ei systemau rheolaeth fewnol. Mae archwiliad mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n ofynnol er mwyn ei gynnwys yn y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ynglŷn â holl system y rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi hefyd na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall yr Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Panel Gweithredol yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn holl system y rheolaeth fewnol.

3 Mae'r adroddiad yn cynnwys y datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar y gwaith Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2015. I gefnogi'r adroddiad, mae Atodiad A yn rhestru barn yr archwiliad a'r prif negeseuon ar yr aseiniadau a gyflawnwyd yn ystod 2014/15.

## Rôl Archwilio Mewnol

4 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system Rheolaeth Fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

5 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a sefydlwyd er mwyn rheoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

## Diffiniad o Archwilio Mewnol

6 Isod, nodir y diffiniad o Archwiliad Mewnol, fel y nodir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013:

- Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrhau ac ymgynghori, sy'n annibynnol ac yn wrthrychol, ac sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull systematig a disgybledig o ymdrin â gwerthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

- Tra bo'r Archwiliad Mewnol "yn anad dim" yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ynghylch yr amgylchedd rheoli, fe allai hefyd gynnal gwaith arall nad yw'n ymwneud â sicrwydd, a hynny ar gais y sefydliad, gan ddibynnu ar argaeledd sgiliau ac adnoddau. Gallai hyn gynnwys gwaith ymgynghorol; yn wir, darparu gwasanaethau ymgynghori y mae Archwilio Mewnol, yn y bôn, pan fo'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau yn sgil gwaith sicrwydd a gwaith sy'n ymwneud â thwyll ariannol.

## Datganiad Blynyddol o Sicrwydd

7 Mae'n rhaid i'r Archwiliad Mewnol roi barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol llywodraethu, systemau rheoli risg ac amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio, gan roi unrhyw fanylion gwendidau a fyddai'n cymhwyso'r farn hon a dod ag unrhyw faterion sy'n berthnasol i baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i sylw'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd fod Gwasanaethau Archwiliad Mewnol yn gweithredu yn unol â safonau archwilio mewnol proffesiynol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013 er mwyn galluogi'r Awdurdod i gymryd sicrwydd o'r farn hon.

## Ffactorau'n sy'n Dylanwadu ar Gwmpas Gwaith Archwiliad Mewnol

8 Mae'n amlwg o'r Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol (Atodiad A) fod yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2014/15 wedi cael ei gynnal heblaw am yr archwiliad o Hyfforddi a Datblygu Staff, y cynhaliwyd archwiliad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn ei le. Roedd y newid i'r cynllun wedi digwydd o ganlyniad o oedi wrth roi'r prosiect arfarnu ar waith a chytunwyd arno gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân.

## Y DATGANIAD O SICRWYDD

## Rhaglith

9 Mae gofyn i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r holl system Rheolaeth Fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a threfn lywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall yr Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn holl system y rheolaeth fewnol.

10 Yr unig faterion a godir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaeth i'n sylw wrth wneud ein gwaith archwilio mewnol, ac nid ydynt, o reidrwydd, yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac ychwaith o'r holl welliannau y gallai fod gofyn amdanynt.

## Sicrwydd Cyffredinol

11 Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi ei gynnal gan gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013.

## Barn yr Archwiliad

12 Rwy'n fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth gynaledig o'r sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu imi ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu yn ATAGC. Yn fy nhyb i, am y 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2015, mae gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar gyfer rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

## Sicrwydd

13 Yn fy nhyb i, mae gan ATAGC brosesau digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli'r modd y mae'n cyflawni amcanion yr Awdurdod am y 12 mis hyd at Fawrth 31[ain] 2015. Er mwyn dod i'r farn hon, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn:

- Mae'r Archwilio Mewnol yn cymryd camau dilynol o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad terfynol mewn perthynas â'r aseiniadau archwilio. Diben yr adolygiad dilynol yw pennu pa mor brydlon ac effeithiol y gweithredir yr argymhellion a wnaed i'r rheolwyr. Mae proses yr adolygiad dilynol yn nodi bod y rheolwyr wedi gweithredu, neu wrthi'n gweithredu, yr holl argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau archwilio sy'n ymwneud â 2013/14. Fodd bynnag, mae'r camau dilynol ar ôl yr archwiliad Llywodraethu Corfforol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014 wedi cael ei gario drosodd i 2015/16.

- Yn Atodiad A, ceir amserlen yn rhoi barn yr archwiliad am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli, mewn perthynas â'r holl aseiniadau archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr holl archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn eu hasesu fel rhai a oedd yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.

14 Gellid defnyddio barn gyffredinol yr archwiliad wrth lunio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## DADANSODDIAD O’R GWAITH A GYFLAWNWYD, A DIFFINIAD O ARGYMHELLION A BARN YR ARCHWILIAD

15 Mae’r amserlen yn Atodiad A yn rhestru’r casgliadau a'r prif negeseuon ynghylch yr aseiniadau y mae’r Archwilio Mewnol wedi adrodd yn eu cylch yn ystod y flwyddyn. Mae Safon 10 o God Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i argymhellion yr Archwilio Mewnol gael eu blaenoriaethu, a hynny er mwyn adnabod eu risgiau penodol yn glir. Mae’r drefn o gategoreiddio’r argymhellion yn sail i farn yr archwiliad mewn perthynas â phob archwiliad. Felly, mae crynodeb o’r farn a roddwyd ar gyfer pob archwiliad a wnaed ym mhob blwyddyn ariannol yn sail i’r broses pan fo gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, dan y Cod uchod, gynnwys barn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol rheolaeth fewnol amgylchedd yr Awdurdod, a hynny yn ei adroddiad blynyddol ffurfiol i’r Pwyllgor Archwilio.

## Graddio Categorïau Risg

16 Mae argymhellion Archwilio wedi eu categoreiddio i adlewyrchu’r ffordd mae’r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg. Mae’r meini prawf risg safonol fel a ganlyn:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | >70% | Bron yn sicr | A | | | | | |
| | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y mwyafrif o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| | Mae’n bosib i’r digwyddiad ddigwydd rhywbryd | 10-30% | Yn bosib | C | | | | | |
| | Digwyddiad yn annhebygol ac efallai y digwyddith rhywdro | 1-10% | Annhebygol | D | | | | | |
| T E | Digwyddiad prin ac efallai dim ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| | | | Perfformiad y Gwasanaeth | | Mân gamgymeriadau neu darfiadau | Rhywfaint o darfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid | Tarfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid craidd | Tarfu’n fawr ar weith-gareddau craidd. Wedi methu targedau allweddol | Methu cyflawni gweith-gareddau craidd. Peryglu nodau strategol |
| | | | Enw da | | Modd adennill hyder heb fawr o ymdrech na chost | Modd adennill hyder am gost fechan gyda’r dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb | I adennill hyder, rhaid awdurdodi costau y tu hwnt i’r cyllidebau presennol | Modd adennill hyder gyda chost fawr a sylw rheolwyr | Drwg mawr i hyder ac adferiad yn amheus a chostus |
| | | | Cost Ariannol | (£) | <£50k | £50k - £350k | £350k - £1 m | £1 m - £5 m | >£5m |
| | | | EFFAITH | | | | | | |

| | Difrifoldeb | Ymyrraeth Rheoli |
|---|---|---|
| | Mân | Canfyddiadau y mae'n hawdd i reolwyr llinell ymdrin â hwy. |
| | Cymedrol | Canfyddiadau sy'n canfod enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau sefydledig ond nad ydynt yn risg mawr i'r Awdurdod, ac y mae modd eu cadw ar lefel y gwasanaeth. |
| | Mawr | Canfyddiadau pwysig y mae angen i Brif Swyddogion eu datrys, ac y mae angen i'r Panel Gweithredol gael gwybod amdanynt o bosibl. |
| | Hanfodol | Canfyddiadau sy'n sylfaenol i reoli risg yn y maes busnes, ac sy'n wendidau mewn rheolaeth y mae angen eu dwyn i sylw'r Panel Gweithredol ar unwaith. |

## Barn yr Archwiliad

17 Mae canlyniad yr archwiliad a'r gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a wnaed a'u graddfa o risg. Mae'r broses hon yn sail i Farn yr Archwiliad, a chafodd y diffiniadau canlynol eu llunio er mwyn galluogi archwilwyr i wneud asesiadau priodol mewn perthynas â Barn yr Archwiliad sydd ar ddiwedd adroddiad pob archwiliad.

## DIFFINIADAU O'R GRADDFEYDD O SICRWYDD

| LEFELAU SICRWYDD | RHEOLAETHAU | RISGIAU |
|---|---|---|
| **SICRWYDD UCHEL** | Mae rheolaethau allweddol yn eu lle i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i ddiogelu'r Awdurdod rhag risgiau mawr y mae modd eu rhagweld, ac maent yn cael yn dilyn yn gyson ac yn effeithiol. Dim camgymeriadau mawr na phwysig wedi eu canfod. | Angen camau blaenoriaeth isel, y mae modd eu rheoli'n hawdd. |
| **SICRWYDD BODDHAOL** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli i'w gwneud yn bosibl i gyflawni amcanion y gwasanaeth ac i liniaru rhag risgiau mawr y gellir eu rhagweld. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghysondeb wrth eu gweithredu, ac mae cyfleoedd o hyd i liniaru rhag risgiau posibl. | Rhai cyfleoedd ar gael o hyd i liniaru rhagor yn erbyn risgiau posibl.<br><br>Rhywfaint o risg o golledion, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |

| LEFELAU SICRWYDD | RHEOLAETHAU | RISGIAU |
|---|---|---|
| **SICRWYDD CYFYNGEDIG** | Mae rheolaethau yn eu lle, a chydymffurfir â hwy, i raddau amrywiol, ond mae bylchau yn y broses gan adael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Ni chyflawnir amcanion, neu cyflawnir hwy heb gael gwerth am arian. | Mae angen cyflwyno rhagor o reolaethau a/neu wella cydymffurfiad â'r rhai sy'n bodoli, a hynny er mwyn lleihau'r modd y mae'r Awdurdod yn agored i risgiau.<br>Risg uchel o golledion, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau'n annigonol, gydag o leiaf un mecanwaith hanfodol yn brin. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiad â'r rheolaethau presennol, a chanfuwyd camgymeriadau a hepgoriadau. | Nid oes rheolaethau allweddol yn bodoli, ac ni chyflawnir yr amcanion, neu cyflawnir hwy heb werth am arian.<br>Mae'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol iawn a allai arwain at golledion ariannol mawr, risg i enw da oherwydd embaras neu fethiant i gyflawni rhai o amcanion allweddol y gwasanaeth. |

## Gwendidau Cyffredin

18 Nid oes un ffactor cyffredin yn cysylltu'r gwendidau a nodwyd fel rhan o'n gwaith mewnol yn 2014/15, ac nid oes unrhyw faterion neu bryderon penodol sy'n berthnasol i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## MATERION ERAILL

## Amodau i Farn yr Archwiliad

19 Wrth roi barn yr archwiliad, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd rhesymol, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr ac eithrio'r rhai a nodwyd.

20 Nodir Amodau Barn yr Archwiliad ym mharagraffau 9 a 10. Hefyd, wrth ddod i'r farn hon, rydym wedi ystyried:

- canlyniadau pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2015;
- canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau o flynyddoedd blaenorol;

- os nad yw'r rheolwyr wedi derbyn argymhellion o gategori Uchel neu Ganolig, a risgiau canlynol hynny;
- effeithiau unrhyw newidiadau perthnasol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio;
- p'un a oes unrhyw gyfyngiadau wedi eu gosod ar gwmpas yr archwilio mewnol ai peidio;
- y cyfyngiadau o ran adnoddau a osodwyd ar yr Archwilio Mewnol, a'r rheini wedi ardaro ar allu'r Gwasanaeth i gyflawni anghenion llawn yr Awdurdod o ran Archwilio Mewnol;
- cyfran o anghenion Archwilio Mewnol yr Awdurdod yr ymorolwyd amdanynt hyd yn hyn.

## Derbyn yr Argymhellion

21 Mae'r rheolwyr wedi derbyn 100% o'r argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y llynedd. Nid oes unrhyw gategorïau pwysig neu fawr yr ydym ni'n eu hystyried yn rhai nad ydynt wedi cael sylw digonol gan y rheolwyr.

## Dibyniaeth a Roddir ar Waith Cyrff Sicrwydd Eraill

22 Wrth lunio'r adroddiad blynyddol a llunio ein barn flynyddol am y cyfnod, mae'r Archwilio Mewnol yn gosod rhywfaint o ddibyniaeth ar waith a gyflawnir gan KPMG, archwilwyr allanol yr Awdurdod, yn enwedig o ran y trefniadau datganiadau ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

## Materion y bernir eu bod yn berthnasol i'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol

23 Yn seiliedig ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod 2014/15, nid oes unrhyw rannau gwan arwyddocaol sy'n gofyn am sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2014/15.

## Cydymffurfio â Safonau Archwiliad Mewnol

24 Ar ddechrau'r flwyddyn, mae Archwilio Mewnol yn defnyddio dull yn seiliedig ar risg wrth bennu anghenion yr Awdurdod o ran archwilio, ac mae'n defnyddio methodoleg yn seiliedig ar risg wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaethau Archwiliad Mewnol wedi ei gyflawni'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013.

25 Mae Archwilio Mewnol yn amodol ar adolygiad blynyddol gan yr Archwilwyr Allanol er mwyn pennu cydymffurfiaeth â'r safonau archwilio sydd i'w cael yn y Cod Ymarfer.

26 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ansawdd mewnol yn rheolaidd gan aelodau profiadol o'r swyddogaeth archwilio mewnol, a hynny er mwyn arfarnu:

- cydymffurfiad â'r safonau trefniadau a gweithredol y cyfeirir atynt ym mharagraff 25,
- ansawdd y gwaith archwilio,
- ansawdd yr oruchwyliaeth,
- cydymffurfiad â'r llawlyfr archwilio lleol,
- cyflawni dangosyddion perfformiad.

27 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014/15 wedi dangos cydymffurfiad â'r safonau mewnol ac allanol.

## Rhaglenni Mewnol ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol

28 Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilio Mewnol, mae nifer o fesurau ansawdd mewn lle, yn cynnwys:

- goruchwylio staff sy'n cynnal gwaith archwilio;
- adolygiad wedi ei ddogfennu o'r holl ffeiliau o bapurau gwaith ac adroddiadau gan reolwyr;
- arfarniad blynyddol o'r staff sy'n ymwneud ag archwilio, gan arwain at ddatblygiad personol a chynlluniau gweithredu ar gyfer hyfforddi;
- cynnal a chadw Llawlyfr Archwilio Mewnol yr Adain.

## ARGYMHELLIAD

29 Derbyn Datganiad Sicrwydd Blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a'i ddefnyddio wrth gyfrannu i'r dystiolaeth yng nghynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol 2014/15.

ATODIAD A

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio

| | Ardal Archwilio | Canfyddiadau'r Archwiliad a'r Prif Negeseuon | Han-fodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytun-wyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Y Gyflogres – Dechreuwyr ac Ymadawyr** | Cadarnhawyd bod y gweithdrefnau Adnoddau Dynol yn gweithredu'n effeithiol ac yn gyson ar y cyfan, gyda'r staff yn cael eu dethol a'u recriwtio mewn proses agored, teg a thryloyw, gan ddarparu cyfle cyfartal a sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu penodi'n amserol. Hefyd, mae Adain y Gyflogres yng Nghonwy yn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu talu'n gywir yn unol â'u contract, ac o ran ymadawyr, bod y cyflog yn dod i ben ar ddyddiad olaf eu gwasanaeth a'r didyniadau cywir wedi eu tynnu.<br>Fodd bynnag, mae'r archwiliad wedi canfod rhai gwendidau yn y rheolaeth fewnol a'r meysydd risg posibl. Nid oedd argymhelliad a wnaed yn 2007 ynghylch pwysigrwydd cynnal gwiriadau rheolaidd rhwng y gyflogres a systemau AD wedi cael ei weithredu'n briodol, ac mae gor-dalu cyflogau wedi tynnu sylw at faes lle gellid gwella rheolaeth fewnol drwy ddefnyddio e-bost diogel i gyflwyno ffurflenni dechreuwyr ac ymadawyr i'r gyflogres. Hefyd, mae'n bwysig sefydlu gweithdrefn rhwng AD a'r Gyflogres, er mwyn i'r Gyflogres lunio rhestr yn fisol o'r holl ddechreuwyr ac ymadawyr, a'i chyflwyno i AD i'w gwirio a'i hardystio er mwyn sicrhau bod hynt yr holl ddechreuwyr ac ymadawyr yn gywir.<br>Mae'r dechreuwyr yn cael llythyrau a chontractau cyflogaeth yn briodol, mae ffurflenni dechreuwyr yn cael eu cwblhau'n brydlon a'u cyflwyno i'r gyflogres, ac mae'r gwiriadau recriwtio priodol yn cael eu cynnal o ran hunaniaeth, geirda, adroddiadau meddygol ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, mae Adran y Gyflogres yn cynnal y gwiriadau priodol ar y ffurflenni dechreuwyr er mwyn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu talu'n gywir yn unol â'u contract a bod unrhyw ddidyniadau'n cael eu tynnu'n gywir. Fodd bynnag, byddai cyflwyno ffurflenni dechreuwyr i Adran y Gyflogres drwy e-bost yn gwella lefel y rheolaeth fewnol a'r trywydd archwilio.<br>Mae ffurflenni ymadawyr, wedi eu hawdurdodi'n gywir, yn cael eu llenwi ymhob achos o weithiwr yn ymadael â'i swydd, a chadarnhawyd bod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod cyflog yn dod i ben ar ddiwrnod olaf y gwasanaeth, gyda'r didyniadau cywir wedi eu tynnu. Fodd bynnag, mae gordalu cyflogau wedi canfod gwendidau yn y rheolaeth fewnol. Nid yw ffurflenni ymadawyr yn cael eu hanfon ar e-bost, ond yn hytrach yn cael eu postio i'r Gyflogres yng Nghonwy, ac nid oes gwiriadau misol i sicrhau bod pob ymadawr wedi cael ei dynnu o System y Gyflogres. | **0** | **0** | **7** | **0** | **7** | **7** | **Boddhaol** |

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio

| | Ardal Archwilio | Canfyddiadau'r Archwiliad a'r Prif Negeseuon | Han-fodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytun-wyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **Rheoli Tanwydd** | Nid oes llawlyfr o weithdrefnau'r swyddfa wedi cael ei sefydlu i ddiffinio'r gweithdrefnau i'w gweithredu ac i esbonio'n glir beth yw dyletswyddau dydd-i-ddydd a chyfrifoldebau'r swyddogion o ran rheoli a monitro'r defnydd o danwydd. Dylai'r gweithdrefnau gynnwys mynd ati'n rheolaidd i ddefnyddio adroddiadau ar y defnydd o danwydd ac adroddiadau eithrio er mwyn monitro'r defnydd o danwydd.<br><br>Mae'r Swyddog Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio yn cadw cofrestr gywir a chyfoes o holl gardiau tanwydd Arval y Gwasanaeth, sy'n cynnwys grŵp y cardiau, rhif cofrestru'r cerbyd neu'r gyrrwr dynodedig, rhif y cerbyd a dyddiad darfod y cerdyn. Mae'r cardiau tanwydd yn cael eu rheoli'n dda, ac mae'r holl gardiau'n cael eu llofnodi pan fydd y swyddog cyfrifol yn eu derbyn.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r Swyddog Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio yn mynd ati'n effeithiol i fonitro'r achosion o ail-lenwi â thanwydd a'r defnydd o danwydd yn y fflyd gerbydau, ac mae'n cynnal lefel foddhaol o reolaeth fewnol dros drafodion tanwydd drwy ddefnyddio data ar hap o System Reoli'r Fflyd, sef *Fleetwave*, er mwyn canfod unrhyw eithriadau neu drafodion amheus. Fodd bynnag, mae Modiwl Tanwydd *Fleetwave* wrthi'n cael ei ddatblygu ac nid yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i ddarparu adroddiadau ynghylch y defnydd o danwydd ac adroddiadau eithrio tanwydd eraill. Byddai hynny'n gymorth i ganfod trafodion amheus posibl ac yn canfod cerbydau sy'n defnyddio lefel eithriadol isel neu uchel, er mwyn craffu ymhellach arnynt.<br><br>Mae anfonebau tanwydd Arval Allstar yn cael eu talu'n brydlon ac yn gywir gan yr Adran Gyllid, ac mae'r holl daliadau'n cael eu gwirio, eu codio a'u hawdurdodi'n briodol. Mae'r anfonebau TAW cyfunol yn cael eu cymeradwyo gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer cofnodion treth felly nid oes angen cadw na phrosesu derbynebau tanwydd unigol, ac mae rheolaethau gwirio electronig yn darparu lefel o sicrwydd ynghylch uniondeb a chywirdeb yr anfonebau. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn bresennol ar gyfer trosglwyddo logiau tanwydd *Trans3* i'r Adran Gyllid yn cael ei ystyried yn faich gweinyddol diangen nad yw'n gwella lefel y rheolaeth fewnol. | **0** | **0** | **5** | **2** | **7** | **7** | **Boddhaol** |

ATODIAD A

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio

| | Ardal Archwilio | Canfyddiadau'r Archwiliad a'r Prif Negeseuon | Han-fodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytun-wyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | Nodwyd bod 26,621 o archwiliadau wedi cael eu cynnal yn 2013/14, sef cynnydd o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r perfformiad mewn perthynas â nifer yr archwiliadau sy'n cael eu cynnal, ac yn enwedig y rhai i oedolion 'bregus', yn cael ei fonitro'n agos ac adroddir ynghylch hynny.<br><br>Nodwyd bod 8,528 (32%) o'r archwiliadau yn ystod 2013/14 yn rhai a oedd yn dilyn atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni, a chaiff y perfformiad ei fonitro o ran cyrraedd yr aelodau sydd fwyaf 'bregus' yn y gymuned. Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, y bwrdd iechyd lleol ac asiantaethau'r sector gwirfoddol i ganfod a chyrraedd yr aelodau mwyaf bregus yn y gymuned.<br><br>Fodd bynnag, canfuwyd bod nifer o Femoranda Cyd-dealltwriaeth, a sefydlwyd yn 2008/09, e.e. gyda Heddlu Gogledd Cymru, wedi dod i ben a heb gael eu hadnewyddu eto oherwydd penderfynwyd bod angen datblygu'r Memoranda i gydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Hefyd, nid oes DDA wedi cael ei sefydlu gydag asiantaethau'r sector gwirfoddol sy'n atgyfeirio pobl fregus. Mae hefyd yn bwysig cynnal gwiriadau i sicrhau bod yr holl atgyfeiriadau a wneir gan asiantaethau drwy e-bost yn cael eu hanfon yn ddiogel gan ddefnyddio meddalwedd e-bost diogel Egress. Hefyd, canfuwyd nad oedd 30% o'r archwiliadau a oedd yn rhai 'Blaenoriaeth Uchel' wedi cael eu cynnal o fewn y targed o 28 diwrnod.<br><br>Fe wnaeth asiantaethau sy'n bartneriaid inni gynnal 2,396 o archwiliadau yn ystod 2013/14, sef y nifer fwyaf a gynhaliwyd mewn un flwyddyn ers i'r prosiect gychwyn yn 2009, a chynnydd o 23% o'i gymharu â 2012/13. Cadarnhawyd bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle gyda'r 16 o asiantaethau sydd â chontract i gynnal archwiliadau, mae pecyn hyfforddi cynhwysfawr yn ei le, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r asiantaethau i adolygu cynnydd, mae rhaglen sicrhau ansawdd yn weithredol, ac mae adroddiad cynnydd blynyddol wedi cael ei gwblhau. | 0 | 0 | 7 | 3 | 10 | 10 | Boddhaol |

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio

| | Ardal Archwilio | Canfyddiadau'r Archwiliad a'r Prif Negeseuon | Han-fodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytun-wyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (parhad)** | Fodd bynnag, canfuwyd bod y Protocol Rhannu Gwybodaeth Bersonol (PISP) a oedd yn eu lle gyda holl asiantaethau'r trydydd sector, wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2014; ni chafodd y protocolau eu hadnewyddu ar y pryd oherwydd penderfynwyd bod angen datblygu'r protocolau i gydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dylai'r gwiriadau sicrhau ansawdd gynnwys cysgodi staff asiantaethau a chadw ffurflenni adolygu yn fwy cyson mewn ffolder ar y gyriant a rennir.<br><br>Mae'n amlwg nad yw'r cofnodion ariannol sy'n cael eu cadw i gofnodi taliadau i asiantaethau ers 2008/09 yn gwbl ddibynadwy na chywir, ac mae hyn yn effeithio ar dargedau'r asiantaethau ar gyfer yr archwiliadau sy'n weddill. Hefyd, pan fo asiantaethau wedi cael eu talu am archwiliadau ac mae'n ymddangos nad ydynt mewn sefyllfa ymarferol i'w cynnal, e.e. Cymorth i Ddioddefwyr, dylid ystyried terfynu'r contractau ac ad-dalu'r cyllid sy'n weddill i GTAGC. | | | | | | | |
| **4** | **Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl** | Cadarnhawyd bod llawlyfr gweithdrefnau ar gyfer yr Orsaf wedi cael ei baratoi ac mae ar gael i'r staff, mae gan yr holl staff ddisgrifiadau manwl o'u swyddi, mae diogelwch cyffredinol yr Orsaf yn briodol ac mae asesiadau risgiau tân a'r safleoedd wedi cael eu sefydlu ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, canfuwyd nad oes gan yr Orsaf gynllun busnes gweithredol yn ei le ac nid yw'n cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i ddarparu adroddiad cynnydd ysgrifenedig a chynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>Canfuwyd nad oes cyllideb â therfyn arian parod wedi ei sefydlu ar gyfer Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl; er bod yr adroddiadau Perfformiad Ariannol i'r Awdurdod Tân yn 2011/12 a 2012/13 yn nodi bod y cyfrif masnachu wedi ei gyllidebu i gael ei mantoli, nid yw hyn wedi ei nodi mewn cynllun busnes neu mewn cyllideb â therfyn arian parod a sefydlir ac a gymeradwyir ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Hefyd, nid yw'r swyddogion cyfrifol, sef Pennaeth Diogelwch Cymunedol a Chydlynydd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, yn cael adroddiadau yn ystod y flwyddyn o'r gwir incwm a gwariant er mwyn gallu rheoli perfformiad ariannol yr Orsaf yn effeithiol ac yn ddarbodus. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod Cydlynydd yr Orsaf yn arfer disgresiwn wrth reoli gwariant yn gyfrifol ac yn ddarbodus. | **0** | **0** | **7** | **4** | **11** | **11** | **Boddhaol** |

**ATODIAD A**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

### Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio

| | Ardal Archwilio | Canfyddiadau'r Archwiliad a'r Prif Negeseuon | Han-fodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfan-swm | Cytun-wyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (parhad)** | Mae'n amlwg fod ail daliadau am logi ystafelloedd mewnol wedi cael eu defnyddio yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad yr Orsaf i leihau diffyg y cyfrif masnachu. Fodd bynnag, yn y 3 blynedd ddiwethaf, oherwydd bod y ddiffyg yn lleihau, nid yw'r ail daliadau wedi cael eu rhoi ar y refeniw. Mae'r driniaeth anghyson hon o ail daliadau am logi ystafelloedd mewnol yn golygu nad yw'r Awdurdod yn cael data ystyrlon er mwyn cymharu a bod modd monitro perfformiad ariannol yr Orsaf yn effeithiol.<br>Canfuwyd nad yw ail daliadau am logi ystafelloedd yr Orsaf wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan y DBST bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol 5.25 a 5.26.<br><br>Cadarnhawyd bod anfonebau'n cael eu codi'n brydlon ac yn gywir ar gyfer llogi ystafelloedd; mae'r cofnodion llogi ystafelloedd o safon dda ac mae'n bosibl eu cysylltu â'r rhif cysylltiedig ar yr anfoneb ac mae'r gweithdrefnau adfer dyledion yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod yr holl ddyledion sy'n weddill yn cael eu talu. Fodd bynnag, canfuwyd bod anfoneb heb gael ei chodi am archeb floc i logi 6 rhwng Tachwedd ac Ionawr 2015, ac nid oes Ffurflen Archeb na chopi wedi ei lofnodi o'r telerau a'r amodau safonol am logi, ar gyfer y rhan fwyaf o archebion i logi ystafelloedd.<br><br>Mae'r Orsaf yn cadw rhestr o'r holl ddodrefn a chyfarpar, ac mae archwiliadau o'r rhestr eiddo yn cael eu cynnal yn flynyddol er mwyn sicrhau bod yr eitemau materol yn cyfateb i'r eitemau ar y rhestr. Fodd bynnag, canfuwyd achosion o ganfod eitemau wedi eu cofnodi yn ystod archwiliadau blynyddol yn rhai heb fod ar y safle mwyach ond y rhestr heb gael ei chefnogi'n briodol gyda'r rheswm pam nad yw'r eitemau yn bresennol mwyach, h.y. ar goll, wedi eu dwyn neu wedi cael gwared arnynt; a swyddog awdurdodedig wedi ardystio hynny'n gywir. | | | | | | | |
| | | | | | | | | **Uchel** | **0** |
| | | | | | | | | **Boddhaol** | **4** |
| | | | | | | | | **Cyfyngedig** | **0** |
| | | | | | | | | **Dim Sicrwydd** | **0** |